**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**17 HYDREF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar ddydd Iau, 17 Hydref 2019

**PRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Paul Johnson, Richard Jones, Vicky Perfect ac Aaron Shotton

**DIRPRWYON: Cynghorydd**: Mike Peers (ar ran Arnold Woolley) a David Wisinger (ar ran Paul Cunningham)

**YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr**: Bob Connah, Michelle Perfect ac Andy Williams, a'r Prif Weithredwr

**CYFRANWYR**: Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Addysg; Cynghorydd Billy Mullin, Cabinet Aelod Cabinet ar gyfer Rheoli Corfforaethol; Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Cyllid; Prif Swyddog llywodraethu); a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ar gyfer cofnod rhif 49
Prif Swyddog (tai ac Asedau) a'r Rheolwr Cyllid (Cyfrifeg Dechnegol)

Ar gyfer cofnod rhif 51
Swyddog Gweithredu Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

## 45. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 46. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 47. OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad cynnydd ar gamau'n deillio o gyfarfodydd blaenorol:

Wrth fynd ati i drafod y penderfyniadau craff ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB), pwysleisiodd y Cynghorydd Heesom bwysigrwydd trafod agored a rhannu gwybodaeth ag Aelodau etholedig yn gynnar.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) sicrwydd nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ac y byddai swyddogion o chwe chyngor Gogledd Cymru'n cyfarfod yn fuan i ystyried opsiynau ar gyfer y model Trosolwg a Chraffu a fyddai'n myned gerbron yr Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom y dylid bod wedi sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol fod y cyfarfodydd hynny wedi'u trefnu. Awgrymodd y Cynghorydd Jones eitem ar yr agenda yn y dyfodol i drafod y dull craffu drwy Ogledd Cymru.

Cymharodd y Cynghorydd Roberts â sefydliad GwE (y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol) a'r rhyngweithio rhyngddo â phob un o'r chwe chyngor drwy bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r cyfarfod arfaethedig yn ystyried yr holl faterion ar gyfer yr NWEAB y byddai angen cytuno arnynt yn gyntaf ar draws bob un o'r chwe chyngor.

Awgrymodd yr Hwylusydd efallai y byddai Aelodau'n dymuno bod yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter yn Rhagfyr i gael diweddariad ar y Fargen Twf. Roedd gwahoddiad hefyd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd.

Wrth gydnabod y pryderon a godwyd, atgoffodd y Cynghorydd Shotton yr Aelodau am drafodaethau blaenorol ar yr amserlen angenrheidiol i gwblhau trefniadau a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd y Fargen Twf wedi'i llofnodi eto.

Atgoffodd y Cynghorydd Jones yr Aelodau o'r cam y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol (penderfyniad 42(g)) i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad dadansoddiad ystadegol o nifer uwch yr achosion camddefnyddio sylweddau/alcohol gan rieni yn Sir y Fflint. Un cam pellach heb ei gyflawni oedd darparu data perfformiad gan Heddlu Gogledd Cymru oedd heb ei gynnwys yn yr atodiad diweddar a rannwyd yn y cyfarfod. Byddai cynnydd ar y ddau gam gweithredu'n cael ei gofnodi yn yr adroddiad Olrhain Camau misol nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at rannu adroddiadau pellach ar bont Sir y Fflint 'pan oedd ar gael' a gofynnodd am osod amserlen, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu gohirio tan ddyddiad diweddarach. Cytunodd yr Hwylusydd i roi sylw i'r mater hwn gyda swyddogion.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed.

## 48. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 49. CYNLLUNIO RHEOLI ASEDAU A DEFNYDDIO COFRESTRI ASEDAU

Cyflwynodd Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad yn amlinellu'r dull cynllunio rheoli asedau a defnyddio cofrestru asedau, a defnydd y Cyngor yn ymarferol.

Rhoddodd drosolwg o'r prif bwyntiau o ran datblygu strategaeth asedau hirdymor i wneud y mwyaf o asedau a chysylltu ag amcanion Cynllun y Cyngor. Roedd y dull o reoli asedau, o safbwynt buddsoddi a chynnal, yn ystyried paramedrau arfer da a osodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y gwahanol Gynlluniau Rheoli Asedau a'r strategaeth gyffredinol wedi'u dwyn ynghyd mewn Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMP) oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac a gaiff ei rannu ym mis Tachwedd. Ar 31 Mawrth 2019, gwerth cyfanswm balans ar gyfer asedau eiddo cyhoedd a thir oedd £762m; roedd y ffigur hwn yn amodol ar amodau'r farchnad oedd yn anwadal.

Cynigiodd Rheolwr Cyllid (Cyfrifeg Dechnegol) eglurhad ar y cyswllt rhwng cynllunio asedau a'r Rhaglen Gyfalaf i'r Datganiad o Gyfrifon lle cofnodir gwerth asedau sefydlog bob blwyddyn yn unol â gofynion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at ddogfen lle'r oedd y Cyngor wedi ymateb i arolwg yn gofyn cwestiynau am reoli asedau gan Lywodraeth Cymru (WG) ychydig flynyddoedd yn ôl. Gan gydnabod y cyngor a'r arweiniad oedd ei angen gan swyddogion, pwysleisiodd bwysigrwydd cyfraniad adeiladol gan Aelodau a gofynnodd am wybodaeth fanylach am y fframwaith rheoli asedau a'r defnydd ohono i wasanaethau rheng flaen. Wrth gyfeirio at gyfanswm gwerth asedau'r Cyngor, gofynnodd i'r Arweinydd ystyried y ddogfen y cyfeiriodd ati a lefel cyfraniad Aelodau i'r broses. Awgrymodd hefyd fod y ddogfen yn cael ei rhannu gydag Aelodau.

Wrth dderbyn copi o'r ddogfen, dywedodd y Cynghorydd Roberts nad oedd yn ymwybodol ohoni. Dywedodd ei fod wedi bod yn werthfawr ei rhannu ymlaen llaw a chytunodd i roi ystyriaeth ddyledus iddi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers hefyd at y ddogfen a rannwyd gan y Cynghorydd Heesom. Siaradodd am Aelodau'n cael mynediad i'r gofrestr eiddo corfforaethol, yr ystâd amaethyddol ac unedau diwydiannol a gofynnodd a oedd arolwg cyflwr wedi'i gynnal ar gyfer yr olaf. Dywedodd ei fod yn bwysig monitro asedau gwag i sicrhau cymaint o incwm â phosibl i'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid mai'r cyfanswm gwerth a nodwyd oedd y ffigur net ar ôl disbrisio. Tynnodd sylw at y

tabl yn yr adroddiad oedd yn dangos y sylfaen mesur ac amlder dibrisio, fel y rhagnodwyd.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Bateman, dywedodd y Rheolwr Cyllid mai gwerth stoc tai'r Cyngor oedd £203m ar 31 Mawrth 2019. Aeth ymlaen i egluro'r dull o brisio 'gwerth defnydd presennol' ar gyfer tai cymdeithasol.

Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Heesom am yr ymgynghori ag Aelodau ynghylch dyfodol Neuadd y Sir, atebodd y Cynghorydd Roberts fod y pwnc wedi cael ei drafod gan y Cabinet ac nad oedd y dewis o alw'r penderfyniad i mewn wedi'i ddefnyddio.

Dywedodd Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y prif benderfyniadau am sylfaen asedau'r Cyngor wedi'u cymryd yn agored gan y Cabinet yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni i leihau nifer y safleoedd ffisegol, yn cynnwys eiddo'r Cyngor. Roedd y dull hwn wedi sicrhau arbedion o ran cyfraddau annomestig cenedlaethol (NNDR) ac wedi gwella amodau gwaith i staff. Byddai'r penderfyniad i drosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Cyngor i Ewlo yn hwyluso'r broses raddol o ddymchwel Neuadd y Sir a byddai hynny yn ei dro'n lleihau ôl troed y Cyngor ac yn creu refeniw.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd am unedau diwydiannol a thai gwag, dywedodd Prif Swyddog (Tai ac Asedau) fod cyfraddau defnyddio ar hyn o bryd yn uchel ac oherwydd oed peth o'r stoc hwnnw, byddai adolygiad yn cael ei gynnal i benderfynu ar y ffordd orau i weithredu o ran dyfodol ei unedau diwydiannol. O safbwynt y stoc tai gwag, y broblem i'r Cyngor oedd colli incwm rhent ac os oeddent yn wag yn y tymor hir, byddent yn amodol ar bremiwm Treth y Cyngor oedd yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Refeniw Tai.

O ran 'asedau a gedwir i'w gwerthu' yn yr eirfa yn yr adroddiad, cwestiynodd y Cynghorydd Peers a oedd y meini prawf yn cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau'r prisiant gorau. Cyfeiriodd at gwestiwn yr oedd wedi'i godi ynghylch pris tir ym Maes Gwern, cwestiwn yr oedd yn dal i ddisgwyl ateb iddo. Dywedodd y Rheolwr Cyllid mai'r geiriad yn yr adroddiad oedd y meini prawf penodedig ar gyfer dosbarthu asedau ac y byddai tir nad oedd yn barod i'w werthu'n cael ei gadw fel 'asedau dros ben'. Eglurodd Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ganlyniad trosglwyddo tir ym Maes Gwern fel rhan o'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP).

Disgrifiodd y Cynghorydd Jones y gofrestr asedau fel dogfen dechnegol sy'n cael ei rheoli gan reolau llym a dywedodd y dylai'r Pwyllgor nodi'r Adroddiad. Wrth gynnig yr argymhelliad, gofynnodd am gynnwys CAMP yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Holodd y Cynghorydd Banks am esboniad ynghylch natur cwestiwn y Cynghorydd Peers.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod trosglwyddo'r safle hwnnw'n golygu defnyddio cwmni preifat i brisio'r tir, oedd yn arfer a ddefnyddid yn aml gan gynghorau eraill wrth werthu tir.

Ar ôl adolygu'r ddogfen a rannwyd gan y Cynghorydd Heesom, dywedodd Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ei bod yn hanesyddol gan nad oedd y teitlau swyddi oedd ynddi'n bodoli bellach. Dywedodd Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y broses ar gyfer gwaredu asedau wedi newid ers hynny.

Wrth eilio'r argymhelliad, dywedodd y Cynghorydd Shotton fod yr adroddiad yn rhoi cipolwg ar y strategaeth fanwl ar reoli asedau cyn derbyn y Cynllun Rheoli Asedau yn Nhachwedd. Dywedodd fod y dull wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd, a thalodd deyrnged i'r Cyngor am fuddsoddi mewn asedau fel ysgolion, tai a phriffyrdd.

**PENDERFYNWYD:**

Nod yr adroddiad yn cael ei nodi.

**50. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2019/20 (MIS 5)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar Fis 5 i'w ystyried gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol os na fyddai unrhyw newid.

Roedd y sefyllfa a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau costau a gwella'r elw ar gynllunio effeithlonrwydd, yn ddiffyg gweithredol o £3.042m oedd yn symudiad negyddol o £0.059m a adroddwyd y mis diwethaf. Roedd y ddau brif faes amrywiant wedi'u hadrodd yn y cyfarfod blaenorol lle'r oedd y Pwyllgor yn fodlon fod cwmpas cyfyngedig iawn ar gyfer lliniaru er mwyn lleihau'r gwariant o fewn y flwyddyn a byddai effaith anorfod ar sefyllfa'r gyllideb o 2020/21. Roedd hyn yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i'w rhannu yn Nhachwedd. I helpu i liniaru'r gorwariant cyffredinol a ragwelid, byddai adolygiad a her i'r holl wariant nad oedd yn hanfodol a recriwtio i swyddi gwag er mwyn sicrhau arbedion dros dro o fewn y flwyddyn, a byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf.

Os na fyddai modd lliniaru'r gorwariant presennol, byddai balans y Gronfa Wrth Gefn yn £1.827m, oedd yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol. Roedd y sefyllfa o ran cronfeydd a neilltuwyd yn amodol ar newidiadau yn lefelau balansau rhagamcanol ysgolion oedd wrthi'n cael eu hadolygu.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, rhagamcanwyd y byddai gwariant o fewn y flwyddyn £0.108m yn fwy na'r gyllideb sy'n gadael balans heb ei glustnodi o 3.35% oedd yn uwch na'r isafswm lefel a argymhellwyd.

Nododd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gais y Cynghorydd Jones sef bod adroddiad y Cabinet yn y dyfodol yn cael ei atodi yn y ffordd arferol, yn hytrach na dogfen wedi'i sganio. Mewn ymateb i gwestiynau, adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod cadarnhad wedi'i dderbyn na fyddai Llywodraeth Cymru'n darparu refeniw na chyllid cyfalaf ar gyfer costau'n gysylltiedig â'r llifogydd yn cynnwys trwsio ffyrdd o dan gyfrifoldeb y Cyngor. Wrth gymharu ffigyrau terfynol Mis 9 a 10 ar gyfer Rhaglenni Strategol, Tai ac Asedau a Chyllid Canolog a Chorfforaethol, byddai ymateb ar wahân yn cael ei rannu er mwyn deall y gwahaniaeth o ran ffigyrau a hynny o bosibl oherwydd trosglwyddiadau.

Hefyd holodd y Cynghorydd Jones ynghylch sefyllfa bresennol nifer yr ysgolion â chyllideb ddiffyg a dywedwyd y byddai canlyniad yr adolygiad yn cael ei gynnwys mewn adroddiad o'r Gyllideb Refeniw yn y dyfodol. Ar y pwynt yma, siaradodd y Cynghorydd Roberts am y rhesymau a allai olygu bod ysgolion yn y sefyllfa hon.

Soniodd y Cynghorwyr Johnson a Jones am incwm parcio a'r effaith ar ardaloedd lle'r oedd yn bosibl parcio ar y stryd. Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod gwaith ar y gweill i sicrhau cyfyngiadau parcio.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Collett ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2019/20 Mis 5 ac yn cadarnhau ar yr achlysur hwn nad oes unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu trafod gyda'r Cabinet.

## 51. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2018/19

Cyflwynodd Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2018/19 i'w gymeradwyo. Roedd yn cynnwys trosolwg o gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a meysydd gwella a nodwyd. Roedd cyhoeddi adroddiad blynyddol yn ddyletswydd statudol ac yn rhan o raglen waith ehangach i sicrhau newid sylweddol.

Tra bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn Addysg, Gwasanaeth Cymdeithasol a Theatr Clwyd o ran diwylliant Cymreig a defnyddio'r Gymraeg, nodwyd meysydd gwella pellach yn yr adroddiad yn cynnwys deall lefelau sgiliau staff a meithrin hyder i sgwrsio yn Gymraeg.

Wrth ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Mullin fod meysydd o ddiffyg cydymffurfio'n deillio'n bellaf o gamgymeriadau gweinyddol yn gysylltiedig â galwadau ffôn ac arwyddion, a bod nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg yn cael sylw drwy'r Sir. Cydnabu'r meysydd gwella angenrheidiol, gan nodi'r cynnydd a wnaed eisoes.

Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Peers, eglurodd Prif Swyddog (Llywodraethu) y drefn o ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn cynnwys trefniadau yn y Ganolfan Gyswllt. Tra bod y Cynghorydd Peers yn gefnogol i ddwyieithrwydd, dywedodd y dylid cael cysondeb, er enghraifft, diffyg arwyddion Saesneg yn swyddfeydd Tŷ Dewi Sant yn Ewlo. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n cyfleu'r sylw a dywedodd fod yr adeilad wedi cael enw Cymraeg yn sgil ymgynghori â'r gweithlu. Ychwanegodd mai'r gofyniad oedd sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn hytrach na bod yn gwbl ddwyieithog.

Siaradodd y Cynghorydd Jones am y cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr Cymraeg a mynegodd ei siom yn y gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg o 137 yn 2017/18 i lawr i 64 yn 2018/19. Roedd y Prif Weithredwr yn rhannu ei bryderon a chyfeiriodd at

gynlluniau i ystyried mathau gwahanol o ddysgu i hybu niferoedd ar lefel mynediad.

Talwyd teyrnged gan y Cynghorydd Shotton i'r gwaith a wnaed mewn ysgolion, yn arbennig y chwe ysgol cyfrwng Saesneg oedd wedi ennill gwobr Efydd y 'Campws Cymraeg'.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Jones ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad blynyddol; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran bodloni gofynion statudol yr Hysbysiad Cydymffurfio â'r Iaith Gymraeg.

## 52. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyngor na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.55am)

...............................

**Cadeirydd**